

**Cylch Gorchwyl:
Adolygiad Annibynnol o
Atgyfeiriadau ar gyfer
Llawfeddygaeth Cadarnhau Rhywedd
gan Wasanaeth Rhywedd Cymru
Medi 2026**

Nodau

Darparu cyngor clinigol, craffu, a rhoi sicrwydd annibynnol i Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru ar briodoldeb y gwaith asesu, y penderfyniadau, a'r atgyfeiriadau a wnaed gan Wasanaeth Rhywedd Cymru i gleifion unigol gael llawdriniaethau cadarnhau rhywedd.

Dylai'r adolygiad nodi arferion da ac unrhyw feysydd y dylid eu gwella, yn ogystal â gwneud argymhellion i gefnogi gwasanaeth diogel, effeithiol, teg a chynaliadwy.

Rhesymeg

Mae Gwasanaeth Rhywedd Cymru (WGS) yn cael ei gomisiynu gan Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (NWJCC) drwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCAF) er mwyn asesu cleifion a gwneud atgyfeiriadau ar gyfer llawdriniaethau cadarnhau rhywedd a gomisiynir gan NHS England (NHSE). Mae prosesau ansawdd, diogelwch a sicrwydd arferol y Cyd-bwyllgor wedi nodi pryderon sy'n ymwneud â gweithgarwch atgyfeirio, priodoldeb atgyfeirio, a threfniadau llywodraethu clinigol o fewn y gwasanaeth. O ganlyniad, mae'r Cyd-bwyllgor wedi uwchgyfeirio Gwasanaeth Rhywedd Cymru, gan sefydlu saib dros dro sy'n effeithio ar atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau llawfeddygol a llawdriniaethau dilynol.

Gwnaed y penderfyniad hwn yn sgil data a gafwyd gan y Gwasanaeth Cymorth Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Dysfforia Rhywedd (GDNRSS) sy'n awgrymu bod cyfradd atgyfeiriadau Gwasanaeth Rhywedd Cymru ar gyfer llawdriniaeth cadarnhau rhywedd yn sylweddol uwch na'r gyfradd gyfatebol yng ngwasanaethau rhywedd Lloegr. Ar gyfer 2025/26, roedd cyfradd atgyfeiriadau llawdriniaeth cadarnhau rhywedd Gwasanaeth Rhywedd Cymru yn 12.6 i bob 100k o'r boblogaeth, o'i gymharu â 3.1 i bob 100k o'r boblogaeth yng ngwasanaethau Rhywedd Lloegr. Gan ddibynnu ar y weithdrefn llawfeddygol dan sylw, roedd y cyfraddau atgyfeirio cleifion 3–5 gwaith yn uwch yng Nghymru o gymharu â Lloegr.

Mae cyfradd y cleifion a aeth ymlaen i gael llawdriniaeth i wneud y frest yn fwy gwrywaidd (MCS) yn sgil atgyfeiriad gan Wasanaeth Rhywedd Cymru (97%) yn debyg i'r gyfradd sy'n cael eu hatgyfeirio gan wasanaethau rhywedd Lloegr. Er hyn, mae data'r GDNRSS a chynghorwyr NHSE yn awgrymu bod cyfradd y cleifion a aeth ymlaen i gael llawdriniaeth organau cenhedlu gwrywaidd yn sgil atgyfeiriad gan Wasanaeth Rhywedd Cymru (34%) yn wahanol iawn i'r gyfradd sy'n cael eu hatgyfeirio gan wasanaethau rhywedd Lloegr (tua 70–90%).

Mae'r cyfraddau atgyfeirio o Gymru felly yn uwch na'r hyn sy'n cael ei adrodd gan wasanaethau rhywedd Lloegr. Nid yw'r gwahaniaeth hwn, ar ei ben ei hun, yn sefydlu priodolrwydd clinigol y trothwy atgyfeirio yng Nghymru nac yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'r cyfuniad o gyfraddau atgyfeirio uwch, cyfradd is o gleifion yn mynd ymlaen i gael llawdriniaeth organau cenhedlu gwrywaidd, pryderon gan gynghorwyr clinigol, a gwybodaeth a geir o gwynion, yn darparu sail resymol ar gyfer adolygiad annibynnol pellach.

Felly, dylai'r adolygiad ystyried pob eglurhad posibl ar gyfer yr amrywiad a welwyd, ond ni ddylai gymryd bod cyfradd atgyfeirio uwch o reidrwydd yn cynrychioli atgyfeiriad amhriodol. Dylai'r adolygiad ystyried gwahaniaethau o ran anghenion y boblogaeth, y gymysgedd o achosion, meini prawf atgyfeirio, arferion asesu, dewis cleifion, math o weithdrefn, newidiadau mewn amgylchiadau clinigol yn ystod cyfnodau hir o aros, diffiniadau data a gweithrediad y llwybrau priodol.

Ar y cyfan, barn y Cyd-bwyllgor yw mai'r opsiwn mwyaf diogel yw parhau â'r saib presennol nes bydd yr adolygiad clinigol annibynnol yn sefydlu a oes digon o sicrwydd i aildddechrau atgyfeiriadau neu lawdriniaethau neu ddim, naill ai i bawb neu ar gyfer grwpiau diffiniedig o gleifion.

At ddibenion yr adolygiad hwn, mae'r llwybr llawfeddygol yn cynnwys tri cham: atgyfeirio ar gyfer asesiad llawfeddygol; asesiad gan y darparwr llawfeddygol; a mynd ymlaen i lawdriniaeth

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi ymgysylltu â chlinigwyr rhywedd annibynnol profiadol i adolygu'r asesiad a'r broses benderfynu ar gyfer cleifion ar wahanol gamau o'r llwybr llawfeddygol ac i archwilio'r llwybrau clinigol cysylltiedig a'r trefniadau llywodraethu.

Cwmpas yr Adolygiad

Adolygiad o Gleifion Unigol

Cyn i'r gwaith adolygu achosion ddechrau, dylai'r clinigwyr annibynnol a'r comisiynydd gytuno ar fframwaith adolygu safonol, gofynion tystiolaeth a diffiniadau ar gyfer y canlynol: cymhwysedd, parodrwydd, priodoldeb, asesiad digonol, a gwybodaeth annigonol. Dylid seilio'r fframwaith ar fanyleb gwasanaeth NHS England a'i gymhwyso'n gyson ar draws pob cam o'r adolygiad.

Bydd yr adolygiad yn ystyried tri grŵp eang o gleifion

1. Cleifion a oedd naill ai i fod i gael llawdriniaeth pan ddechreuodd y saib dros dro ar 26.08.26 neu a oedd i fod i gael llawdriniaeth rhwng hynny a 31.12.26. Dyma'r grŵp â blaenoriaeth uniongyrchol ar gyfer asesu
2. Cleifion sydd wedi cael asesiad llawfeddygol ac a oedd yn disgwyl llawdriniaeth rywbryd ar ôl 31.12.26
3. Cleifion sydd wedi cael atgyfeiriad am lawdriniaeth ond sy'n disgwyl asesiad llawfeddygol

Ni fydd angen ailasesiad unigol ar gleifion sydd wedi dechrau ar gyfres o weithdrefnau llawfeddygol cysylltiedig cyn y cânt barhau â'r gyfres honno, oni bai bod pryder clinigol neu bryder ddiogelu newydd. Fodd bynnag, gellir cynnwys cofnodion perthnasol mewn dadansoddiad thematig dienw os ydynt yn darparu gwybodaeth am weithrediad y llwybr atgyfeirio neu lywodraethu.

Cam 1: Cleifion a restrwyd ar gyfer llawdriniaeth cyn 31.12.26

Nodau

Asesu priodoldeb yr atgyfeiriad a'r asesiad gwreiddiol ar gyfer cleifion sydd ar y rhestr i gael llawdriniaeth cadarnhau rhywedd rhwng 26.08.26 a 31.12.26, ac i benderfynu a oes digon o sicrwydd cyfredol ynghylch eu cymhwysedd a'u parodrwydd i fwrw ymlaen.

Dulliau

Mae darparwyr llawfeddygol yn amcangyfrif bod llawdriniaeth wedi'i drefnu ar gyfer oddeutu 60 o gleifion rhwng y saib mewn llawdriniaethau ar 26.08.26 a 31.12.26. Bydd y cleifion yn cael eu rhannu rhwng y clinigwyr annibynnol i'w adolygu. Bydd yr adolygiad o asesiadau yn cynnwys adolygiad nodiadau ac

ymgyngoriad rhithwir. Bydd strwythur yr adolygiad yn seiliedig ar fanyleb gwasanaeth NHS England. Aseidiadau rhithwir yw'r arfer, ond os nad yw hyn yn bosibl i glaf neu os nad yw claf yn fodlon cael eu hasesu yn rhithwir, bydd asesiad wyneb yn wyneb yn cael ei drefnu'n ddiweddarach.

Bydd yr asesiad yn cynnwys:

- Hanes rhywedd
- Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â thrawsnewid
- Gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag agweddau cymdeithasol
- Hanes fforensig neu ddiogelu perthnasol, pan fo hynny wedi'i nodi'n glinigol
- Adolygiad iechyd meddwl
- Iechyd corfforol
- Trafodaeth lawfeddygol gydag asesiad parodrwydd, pan fo hynny wedi'i nodi yn glinigol.

Bydd y clinigwyr annibynnol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i gael trafodaeth amlddisgyblaethol am bob claf unigol, gan gyrraedd consensws ar briodoldeb llawdriniaeth.

Ar ôl trafodaeth amlddisgyblaethol, dylai'r clinigwyr annibynnol gofnodi eu consensws ar bob achos, cyn belled ag y gellir ei bennu'n rhesymol ar sail y dystiolaeth sydd ar gael:

- a oedd y weithdrefn atgyfeirio ac asesu berthnasol yn dilyn manyleb gwasanaeth NHS England ar gyfer llawdriniaeth cadarnhau rhywedd;
- a gafodd yr wybodaeth angenrheidiol ei chyflwyno, ei hystyried a'i dogfennu;
- a gafodd yr anghenion corfforol, seicolegol, iechyd meddwl ac iechyd ehangach eu hasesu'n briodol;
- a gafodd meysydd o ansicrwydd neu ystyriaethau clinigol cystadleuol eu nodi a'u rheoli;
- a ystyriwyd y penderfyniad gan ddefnyddio'r broses amlddisgyblaethol briodol;
- a oedd y rhesymeg dros atgyfeirio yn cael ei gefnogi gan yr wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd;
- a fu unrhyw wyriad o'r llwybr arferol, ac a gafodd hwnnw ei nodi, ei gyfiawnhau, ei ddogfennu a'i oruchwyllo'n briodol.

Ar gyfer pob claf, dylai'r clinigwyr annibynnol ddarparu barn resymegol gan ddefnyddio'r fframwaith adolygu y cytunwyd arno, gan wahaniaethu rhwng y canlynol:

- atgyfeiriad ac asesiad priodol, gyda digon o sicrwydd i fwrw ymlaen;

- atgyfeiriad rhesymol, ond mae angen gwybodaeth benodol gan Wasanaeth Rhywedd Cymru neu asesiad pellach cyn bwrw ymlaen;
- nid oedd yr atgyfeiriad yn bodloni un neu fwy o'r gofynion perthnasol ar y pryd, ond mae'r claf bellach yn gymwys ac yn barod i fwrw ymlaen;
- nid yw'r claf yn gymwys neu'n barod i fwrw ymlaen ar hyn o bryd, gyda'r rhesymau a'r camau nesaf gofynnol wedi'u nodi;
- dim digon o dystiolaeth i ffurfio barn; a
- pryder clinigol neu ddiogelu brys sydd angen cael ei uwchgyfeirio.

Dylai'r clinigwyr annibynnol nodi'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r casgliad, unrhyw wybodaeth nad oedd ar gael, a faint o hyder sydd ganddynt yn y farn.

Os bydd pryder sy'n awgrymu risg uniongyrchol i glaf neu i ddiogelwch y gwasanaeth ehangach, rhaid hysbysu'r darparwr clinigol cyfrifol a'r Cydwasanaeth ar unwaith gan ddefnyddio llwybr uwchgyfeirio y cytunwyd arno. Dylai'r clinigwyr annibynnol gofnodi'r pryder, pwy yw'r derbynnydd, pa gamau sy'n ofynnol, a dyddiad yr uwchgyfeiriad. Os yw'r pryder yn un brys, ni ddylid aros am gyfarfod amlddisgyblaethol, adolygiad interim neu adroddiad terfynol.

Dylai'r clinigwyr annibynnol wahaniaethu rhwng y canlynol:

- a oedd yr atgyfeiriad gwreiddiol yn rhesymol yn ôl y dystiolaeth a'r safonau a oedd yn berthnasol ar y pryd;
- a oedd y broses asesu a gwneud penderfyniadau gwreiddiol yn ddigon cyflawn ac a gafodd ei dogfennu'n briodol; ac
- a yw'r claf yn gymwys ar hyn o bryd ac yn barod i fwrw ymlaen, gan gydnabod y gallai amgylchiadau clinigol, statws iechyd a dewis y claf fod wedi newid yn ystod y saib.

Os gwelir nad yw claf yn barod ar gyfer llawdriniaeth ar hyn o bryd, ni ddylid cymryd yn ganiataol bod yr atgyfeiriad gwreiddiol yn amhriodol, os nad oes rhagor o dystiolaeth. I'r gwrthwyneb hefyd, ni ddylai parodrwydd yn awr roi sicrwydd bod y broses asesu neu lywodraethu wreiddiol yn ddigonol.

Ar y cyfan, dylai blaenoriaethu adlewyrchu brys clinigol a chanlyniadau'r oedi. Fodd bynnag, dylai unrhyw gasgliad interim ynghylch y llwybr ehangach ystyried nodweddion a chynrychiolaeth yr achosion a adolygwyd. Pan nad yw'r garfan â blaenoriaeth yn cynnig cynrychiolaeth ddigonol o'r mathau o weithdrefnau, cyfnodau amser neu gamau perthnasol o'r llwybr, dylid ystyried samplu ychwanegol wedi'i dargedu cyn rhoi sicrwydd ehangach.

Dylai'r comisiynwyr gadarnhau bod yr adnodd clinigol a gweinyddol sydd ar gael yn ddigon i ganiatáu i'r asesiadau unigol, y cyfarfodydd clinigol annibynnol rheolaidd, yr adolygiad llwybr a llywodraethu, y dadansoddiad thematig a'r adroddiadau gael eu cwblhau o fewn yr amserlen ofynnol heb gyfaddawdu ansawdd neu gysondeb yr adolygiad.

Allbynnau

Ar gyfer pob claf, bydd y clinigwyr annibynnol yn darparu barn resymegol o'r rhestr a nodir yn yr adran Dulliau. Wedi hynny, bydd Gwasanaeth Rhywedd Cymru, mewn ymgynghoriad â'r darparwyr llawfeddygol a'r Cyd-bwyllgor, yn penderfynu ar y camau angenrheidiol trwy'r broses lywodraethu ddiffiniedig. Gallai hyn gynnwys:

- dychwelyd claf i'r llwybr llawfeddygol pan fo digon o sicrwydd i fwrw ymlaen;
- cael gwybodaeth benodol gan Wasanaeth Rhywedd Cymru neu gwblhau asesiad pellach cyn gwneud penderfyniad;
- atgyfeirio claf yn ôl at Wasanaeth Rhywedd Cymru gyda dogfennaeth glir i egluro'r rhesymau a'r camau nesaf angenrheidiol;
- gofyn i'r penderfynwr clinigol neu benderfynydd comisiynu perthnasol ailystyried pan fo'r dystiolaeth yn parhau i fod yn anghyflawn neu os oes anghytundeb; neu
- uwchgyfeirio unrhyw bryder clinigol, diogelu neu ddiogelwch cleifion ar unwaith os ydyn nhw'n rhai brys.

Dylid hysbysu'r claf o'r penderfyniad, y rhesymau amdano, unrhyw gamau pellach angenrheidiol a'r llwybr ar gyfer ailystyried neu godi pryder.

Bydd y clinigwyr annibynnol yn darparu barn ymgynghorol o dan y cylch gorchwyl hyn, ni fyddant yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb clinigol parhaus am gleifion unigol. Gwasanaeth Rhywedd Cymru, sef y darparwr cyfrifol, fydd yn cadw'r cyfrifoldeb clinigol am ofal parhaus y claf, yn amodol ar gyfrifoldebau cyffredin unrhyw glinigydd neu ddarparwr sy'n darparu rhan benodol o'r llwybr. Gwasanaeth Rhywedd Cymru fydd y brif ffynhonnell o gymorth seicolegol trwy gydol y broses adolygu.

Dylai penderfyniadau i adfer lle, gohirio neu dynnu claf oddi ar y llwybr llawfeddygol gael eu gwneud trwy broses lywodraethu ddiffiniedig gan Wasanaeth Rhywedd Cymru mewn ymgynghoriad â'r darparwyr llawfeddygol a'r Cyd-bwyllgor. Dylai'r broses honno ystyried y farn annibynnol, sicrhau mewnbyn clinigol priodol, cynnig rhesymau a chmau nesaf eglur i'r claf, a chynnwys trefniadau ar gyfer ailystyried pan fo rhagor o wybodaeth ar gael.

Dylai'r broses adolygu fod ar wahân i broses pryderon GIG Cymru. Dylai cleifion gael gwybodaeth glir a hygyrch am sut i godi pryder am y gofal a ddarparwyd yn wreiddiol, am sut cynhaliwyd yr asesiad annibynnol, ac am y penderfyniad dilynol a wnaed gan y sefydliad cyfrifol. Dylai unrhyw bryder o'r fath gael ei reoli gan y corff cyfrifol perthnasol yn unol â chanllawiau Gwrando ar Bobl: Proses Cwynion, Digwyddiadau a Iawndal GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys cynnig trafodaeth wrando gynnar i'r person, ystyried a yw datrysiad cynnar yn briodol, egluro sut y bydd y pryder yn cael ei ymchwilio pan fo angen ystyriaeth bellach, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r person, a darparu mynediad at eiriolaeth, cymorth cyfathrebu ac addasiadau rhesymol. Ni ddylai mynegi pryder gael effaith andwyol ar ofal y claf na'u hystyriaeth o dan yr adolygiad hwn.

Adolygiad interim

Bydd adolygiad interim o'r allbynnau yn cael ei gynnal mewn cydweithrediad â'r Cyd-bwyllgor ac arweinydd llawfeddygol y GIG ar ôl 30 asesiad i bennu'r angen i asesu'r 30 o gleifion pellach.

Cyn yr adolygiad interim, dylai'r comisiynydd a chlinigwyr annibynnol gytuno ar y meini prawf a fyddai'n darparu digon o sicrwydd i atal, ymestyn neu addasu'r adolygiad. Dylai'r rhain ystyried nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu hystyried yn briodol yn ogystal â natur a difrifoldeb unrhyw bryderon, cysondeb rhwng adolygwyr, tystiolaeth o wendidau ailadroddus o ran llwybr neu lywodraethu, ac a yw'r achosion a adolygwyd yn cynrychioli gweithdrefnau, clinigwyr a chyfnodau amser perthnasol yn ddigonol.

Ni ddylid ystyried bod absenoldeb pryderon mewn sampl cyfleustra cychwynnol yn rhoi sicrwydd ynghylch y gwasanaeth ehangach.

Cam 2: Cleifion a fydd yn cael eu rhoi ar y rhestr i gael llawdriniaeth ar ôl 31.12.26

Nodau

Asesu a yw cleifion sydd ar y rhestr i gael llawdriniaeth cadarnhau rhywedd ar ôl 31.12.2026 wedi'u hasesu'n briodol, gan gynnwys cymhwysedd a pharodrwydd ar gyfer llawdriniaeth.

Dulliau

Mae Cam 2 yn dibynnu ar ganlyniadau Cam 1. Os ceir sicrwydd ar ôl yr adolygiad o 30 neu 60 o gleifion, ni fydd angen parhau â Cham 2. Os na cheir sicrwydd, bydd Cam 2 yn adlewyrchu Cam 1.

Allbynnau

Fel Cam 1

Cam 3a a 3b: Cleifion sydd wedi cael atgyfeiriad am lawdriniaeth ond sy'n disgwyl asesiad llawfeddygol

Cam 3a:

Nodau

Asesu a yw'r cleifion sydd wedi cael atgyfeiriad ar gyfer llawdriniaeth cadarnhau rhywedd wedi'u hasesu'n briodol, gan gynnwys cymhwysedd a pharodrwydd i gael llawdriniaeth.

Dulliau

Bydd adolygiad desg yn canfod unrhyw gleifion sy'n edrych fel pe baent yn methu â bodloni un neu fwy o feini prawf clinigol sylfaenol, gan gynnwys gofynion perthnasol sy'n ymwneud â BMI, ysmegu neu hyd triniaeth hormonau. Dylid cyfeirio unrhyw anghymhwysedd posibl, gwybodaeth goll, neu ansicrwydd drwy'r broses lywodraethu ddiffiniedig cyn gwneud penderfyniad i ohirio neu dynnu'r claf o'r llwybr llawfeddygol.

Bydd Arden a GEM yn dadansoddi achosion a nodwyd trwy'r adolygiad desg er mwyn penderfynu a oes patrymau'n ailadrodd o ran anghymhwysedd posibl, gwybodaeth goll neu fethiant i gydymffurfio â gofynion atgyfeirio.

Allbynnau

Bydd yr adolygiad desg yn nodi achosion pan fo'r wybodaeth sydd ar gael yn dangos bod y meini prawf atgyfeirio sylfaenol wedi'u bodloni, achosion pan fo angen gwybodaeth neu asesiad pellach, ac achosion lle ymddengys nad yw un neu fwy o feini prawf wedi'u bodloni. Bydd unrhyw benderfyniad dilynol sy'n effeithio ar lwybr y claf yn cael ei wneud trwy'r broses lywodraethu ddiffiniedig.

Cam 3b:

Nodau

Asesu a yw'r cleifion sydd wedi cael atgyfeiriad ar gyfer llawdriniaeth cadarnhau rhywedd wedi'u hasesu'n briodol, gan gynnwys cymhwysedd a pharodrwydd i gael llawdriniaeth.

Dulliau

Asesu cleifion fel yng Ngham 1

Allbynnau

Allbynnau fel Cam 1

Nodau ac Amcanion

Bydd yr ymgynghorwyr clinigol annibynnol yn cydgasglu ac yn dadansoddi canfyddiadau adolygiadau unigol i nodi themâu sy'n ailadrodd, gan gynnwys:

- math ac amlder y gofynion sydd heb eu bodloni neu sydd wedi'u dogfennu'n anghyflawn;
- ym mha gamau ar y llwybr y mae pryderon yn codi;
- amrywiad rhwng mathau o weithdrefnau, clinigwyr neu gyfnodau amser, pan fo'r data'n caniatáu hynny;
- y rhesymau pam na wnaeth cleifion fynd yn eu blaenau ar ôl asesiad llawfeddygol;
- enghreifftiau o arfer da;
- ffactorau cyfrannol posibl o fewn y llwybr neu'r system lywodraethu; ac
- unrhyw ganfyddiadau sy'n dangos risg uniongyrchol y mae angen gweithredu arno cyn cwblhau'r adroddiad terfynol.

Dylai'r adolygiad wahaniaethu rhwng materion unigol ar lefel achos a chanfyddiadau ailadroddus neu systemig, a dylai nodi cryfder a chyfyngiadau'r dystiolaeth sy'n cefnogi unrhyw gasgliad.

Nodi unrhyw wyriad materol o'r fanyleb gwasanaeth, gofynion comisiynu, safonau proffesiynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth neu weithdrefnau lleol cymeradwy perthnasol, ac asesu arwyddocâd clinigol yr ymadawiad hwnnw.

Cysylltu â'r Cyd-bwyllgor yn rheolaidd gan amlygu unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Dylai'r adroddiad terfynol wneud y canlynol:

- disgrifio'r fethodoleg, y safonau a gymhwyswyd, a'r cyfyngiadau;
- adrodd canfyddiadau agregedig dienw a dadansoddiad thematig;
- nodi unrhyw gamau diogelwch uniongyrchol sydd eisoes wedi'u hargymell;
- gwneud argymhellion blaenoriaethol, gan nodi pa sefydliad sy'n gyfrifol am bob un;
- gwahaniaethu rhwng y camau gweithredu sy'n ofynnol cyn i atgyfeiriadau ailddechrau a'r camau sy'n welliannau gwasanaeth tymor hwy; a
- cynnig mesurau a allai brofi gweithrediad ac effaith.

Ni ddylid ystyried bod argymhellion yn gyflawn dim ond oherwydd bod gweithred neu ddogfen ddiwygiedig wedi'i chynhyrchu. Er mwyn cau'r mater, dylid cael tystiolaeth i ddangos bod y newid wedi'i weithredu a, phan fo'n ymarferol, ei fod wedi gwella ansawdd neu ddibynadwyedd y llwybr.

Ar wahân i'r adolygiad o atgyfeiriadau llawfeddygol, mae gan y Cyd-bwyllgor drefniadau ers tro i gomisiynu adolygiad gwasanaeth cyfan a llywodraethu ar gyfer Gwasanaeth Rhywedd Cymru. Dylid darparu unrhyw ganfyddiadau ac arsylwadau thematig sy'n deillio o'r adolygiad clinigol annibynnol o'r llwybrau llawfeddygol er mwyn llywio'r adolygiad ehangach o Wasanaeth Rhywedd Cymru.

Ystyriaethau

Dylai'r cynghorwyr annibynnol fynd i'r afael â'r canlynol yn benodol:

Maes	Cwestiwn Allweddol
Diogelwch	A yw'r model presennol yn ddiogel yn glinigol?
Ansawdd	A yw'r gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel?
Effeithiolrwydd	A yw gofal yn cyd-fynd â'r dystiolaeth a'r safonau cyfredol?
Cymorth Seicolegol	A yw anghenion seicolegol yn cael sylw priodol?
Iechyd Meddwl	A yw'r rhyngwynebau seiciatrïg ac iechyd meddwl yn ddigonol?
Gofal Sylfaenol	A yw trefniadau gofal sylfaenol yn gynaliadwy ac yn effeithiol?
Llywodraethu	A yw'r trefniadau llywodraethu yn ddigon cadarn?
Gwella'r Gwasanaeth	Pa newidiadau fyddai'n datrys canfyddiadau'r adolygiad ac yn cefnogi gwasanaeth diogel, effeithiol a chynaliadwy?



Headquarters

Unit G1, Treforest Industrial Estate, Main Avenue,
Pontypridd, CF37 5YL

Contact Information

☎ 01443 443443 (ext 78100)

✉ NWJCC@wales.nhs.uk

🌐 <https://jcc.nhs.wales/>

🏢 NHS Wales Joint Commissioning Committee

Pencadlys

Uned G1, Ystâd Ddiwydiannol Treforest, Main Avenue,
Pontypridd, CF37 5YL

Gwybodaeth Gyswilt

01443 443443 (est. 78100) ☎

NWJCC@wales.nhs.uk ✉

<https://cbc.gig.cymru/> 🌐

Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru 🏢